Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Craig Y Parc

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/03/2016**

## Cyd-destun

Ysgol ddydd breswyl annibynnol ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed yw Ysgol Craig y Parc. Ar hyn o bryd, mae 37 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhai disgyblion yn byw yn yr ysgol amser llawn ac mae lleiafrif ohonynt yn cael gofal seibiant.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anghenion corfforol cymhleth ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys parlys yr ymennydd, dysffagia, awtistiaeth ac epilepsi. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol wedi'i threfnu'n saith dosbarth, ar sail oedrannau, galluoedd ac anghenion disgyblion.

Perchennog yr ysgol yw elusen Scope, sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ag anghenion cymorth cymhleth. Caiff Scope ei reoli gan fwrdd ymddiriedolwyr. Mae gan yr ysgol fwrdd llywodraethwyr sy'n goruchwylio'i berfformiad.

Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol eu gosod gan awdurdodau yn ne Cymru. Caiff ychydig iawn o ddisgyblion eu gosod gan awdurdodau yn Lloegr.

Penodwyd y pennaeth yn Rhagfyr 2014. Mae'r ysgol yn hysbysebu am bennaeth addysg a therapïau i ymuno â'r uwch dîm rheoli ar hyn o bryd.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

Mae pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn dangos mwynhad amlwg yn eu dysgu.

Ceir perthnasoedd da a pharchus rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn cynnig anogaeth effeithiol i ddisgyblion i'w helpu i ddatblygu eu hannibyniaeth a'u medrau cyfathrebu.

Mae'r cwricwlwm yn briodol o eang a chytbwys. Gall disgyblion hŷn wneud dewisiadau am yr hyn y maent yn ei ddysgu o ystod eang o ddewisiadau sy'n cynnwys drama, garddio a pharatoi prydau, er enghraifft.

Mae staff yn trefnu eu grwpiau dosbarth yn briodol. Maent yn rheoli a chynorthwyo eu disgyblion yn dda. Maent yn cynllunio gweithgareddau addas sy'n briodol i oedran a chyfnod disgyblion, i fodloni anghenion dysgu unigol disgyblion.

Mae ffeiliau cofnodion unigol disgyblion yn drefnus. Maent yn cynnwys manylion am ddatganiadau disgyblion, adroddiadau cyfarfodydd adolygu blynyddol, cynlluniau addysg disgyblion a'u targedau presennol.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr a rheolwyr wedi gwneud newidiadau effeithiol sy'n cynnwys gwella'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion ôl-16, trefnu ac adnewyddu'r adeiladau a datblygu arbenigedd y tîm staff wrth ddefnyddio technolegau cynorthwyol.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

Mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio agos gyda disgyblion, ac maent yn gwybod yn dda beth yw anghenion dysgu unigol disgyblion. Maent yn gosod targedau priodol ar gyfer gwella bob tymor. Fodd bynnag, nid oes proses gyson i fonitro, cofnodi ac arfarnu'r cynnydd a wna disgyblion yn y tymor byr, er enghraifft bob wythnos. Mae'r ysgol yn cyflwyno systemau newydd i fonitro presenoldeb a pherfformiad disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r rhain.

Mae staff yn annog disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth wrth ddefnyddio eu cadeiriau olwyn ac offer arall i symud o gwmpas y safle. Fodd bynnag, mae rhai o'r drysau yn y prif adeilad yn drwm ac nid ydynt yn rhoi mynediad hawdd.

Mae'r swydd pennaeth addysg a therapïau yn wag ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn datblygu system hunanarfarnu sydd wedi'i seilio ar ystod o dystiolaeth uniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa mor dda y defnyddir y wybodaeth i nodi meysydd ar gyfer gwella'r ysgol.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Roi system gwybodaeth reoli effeithiol ar waith i alluogi staff i fonitro, cofnodi ac arfarnu camau bach yng nghynnydd disgyblion yn fwy effeithiol i lywio eu cynllunio

A2 Sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad haws ac annibynnol i ystafelloedd dosbarth mewn cadeiriau olwyn

A3 Parhau i ddatblygu'r broses hunanarfarnu gyda ffocws ar addysgu a dysgu, a sicrhau ei bod yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer datblygu'r ysgol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod pob disgybl, lle bo'n briodol, yn gallu manteisio ar ystod briodol o dechnoleg gynorthwyol er mwyn gwella ansawdd eu profiadau dysgu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad, mae'r ysgol wedi bod yn rhagweithiol o ran datblygu'r defnydd o dechnolegau cynorthwyol ar draws yr ysgol. Mae staff wedi nodi anghenion cyfathrebu disgyblion ac wedi llwyddo i gynyddu ystod yr offer a'r dechnoleg briodol. Rhoddodd y cydlynydd hyfforddiant i'r holl staff addysgu, therapiwtig, staff cymorth a gofal preswyl mewn defnyddio offer, ac mae'n rhoi cymorth parhaus effeithiol iddynt. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau, lle bo'n briodol, bod therapi lleferydd ac iaith a chymorth i ddisgyblion o ran defnyddio eu technolegau cynorthwyol yn cael eu cyflwyno ar y cyd i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn gwella eu hyder o ran defnyddio eu hoffer trwy gymorth un i un a gwersi grŵp.

O ganlyniad, mae staff a disgyblion yn gwneud defnydd cynyddol o dechnolegau cynorthwyol i wella dysgu. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwaith hwn yn ddiweddar ac mae staff wrthi'n datblygu eu hyder o hyd o ran cynnwys y maes hwn yn eu cynllunio cwricwlwm.

**Argymhelliad 2: Rhoi system gwybodaeth reoli effeithiol ar waith**

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn systemau electronig newydd yn ddiweddar i gofnodi a monitro presenoldeb disgyblion a'u perfformiad. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu eu heffeithiolrwydd.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu dan do ac allanol i sicrhau hygyrchedd gwell i bob disgybl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinwyr yr ysgol wedi ad-drefnu'r defnydd mewnol a wneir o'r safle. Maent wedi adleoli ystafelloedd ar gyfer addysgu, therapi a gweithgareddau synhwyraidd a thechnoleg i wella hygyrchedd ar gyfer disgyblion. Mae'r ystafelloedd dosbarth wedi'u hadleoli yn agos at ei gilydd ac mae hyn yn galluogi disgyblion i ryngweithio'n dda â'i gilydd ar draws yr ysgol. Caiff offer disgyblion, er enghraifft treisiclau a chadeiriau olwyn, ei storio'n daclus yn y prif goridorau. Fodd bynnag, mae rhai drysau yn y prif adeilad yn drwm ac nid ydynt yn galluogi disgyblion i gael mynediad hawdd yn annibynnol.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r perchennog wedi cynnal rhaglen adnewyddu fuddiol. Mae prif ardaloedd yr ysgol wedi cael eu hailaddurno. Mae llawr y neuadd wedi cael ei atgyweirio a'i ailosod i safon dda. Mae arddangosfeydd o waith disgyblion a ffotograffau o'u gweithgareddau yn gwella'r amgylchedd dysgu yn yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau nodedig i'r amgylchedd dysgu awyr agored gyda mewnbwn gwerthfawr partneriaid o gynllun prentisiaeth gwirfoddolwyr. Mae'r gwelliannau'n cynnwys datblygu gardd synhwyraidd, adeiladu ardal ddecio fawr gyda gwelyau blodau uchel ac uwchraddio llwybr coetir. Mae modd mynd i bob un o'r ardaloedd hyn mewn cadair olwyn. Mae'r ysgol yn cynnwys dysgu yn yr awyr agored yn yr amserlen ar gyfer pob dosbarth, ac mae'n darparu gweithgareddau dysgu addas.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl yn yr ysgol

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol, efallai yr hoffai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Craig Y Parc |
| **Rhif yr ysgol** | 6816087 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 18/01/2016 |
| **Perchennog** | Scope |
| **Staff** | Athrawon: 6 amser llawn, 3 rhan-amser<br>Cynorthwywyr Cymorth Dysgu: 26 amser llawn, 12 rhan-amser<br>Therapyddion: 4 amser llawn, 5 rhan-amser<br>Technegwyr therapi: 2 amser llawn, 2 rhan-amser<br>Eiriolwr disgyblion: 1 amser llawn<br>Staff gofal: 32<br>Nyrsys: 3 |
| **Nifer y disgyblion** | 37 |
| **Darpariaeth** | Addysg ddydd<br>Preswyl: hyd at 52 wythnos y flwyddyn<br>Gofal seibiant |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Mae gan bob un o’r disgyblion anghenion cymhleth yn gysylltiedig ag effaith parlys yr ymennydd/anaf caffaeledig i’r ymennydd ar eu gweithredoedd gwybyddol, gweledol, echddygol manwl/bras, iaith a chyfathrebu. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/02/2015 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/11/2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/05/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Jassa Scott | Arolygydd Tîm |